Julian o Norwich 1342–*c.*1416

Meudwy a chyfrinydd

Efallai i Julian gael ei henwi ar ôl eglwys Santes Julian sef eglwys y plwyf yn Conisford, Norwich, lle yr oedd ei chell. Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael am ei chefndir, ei magwraeth na'i phlentyndod. Mae un o'i llawysgrifau yn cynnwys tafodiaith ogleddol gref a chyfeiriad at Sant John o Beverley sydd yn awgrymu cysylltiadau efallai gyda Swydd Efrog. Deillia ein holl wybodaeth am Julian o'i gwaith *Revelations of Divine Love*. Cyfansoddodd ddau fersiwn o'r gwaith hwn, un yn hir a'r llall yn fyr. Y mae'r gwaith yn cynnwys myfyrdodau dwys ar gyfres o un weledigaeth ar bymtheg o'r Crist croeshoeliedig. Fe gafodd y gweledigaethau hyn ym 1373 pan oedd yn 31 oed ac yn ddifrifol wael, un ai ar 8 neu 13 Mai. Nid yw'n datgelu dim o hanes ei bywyd cyn y digwyddiadau hyn ac y mae haneswyr wedi bod yn dyfalu tybed oedd hi yn feudwy cyn y digwyddiad hwn neu yn lleian ym mhriordy Benedictaidd Carrow gerllaw neu yn lleygwraig gyffredin. Awgrymir yn y fersiwn byr ei bod yn ei chartref pan gafodd y gweledigaethau hyn. Efallai ei bod yn ddibriod neu'n weddw a oedd wedi colli gŵr a phlant yn y plâu difrifol fu ym 1362 a 1369.

Gallai cefndir fel hyn fod wedi bod yn ffynhonnell ei harddull unigryw oedd yn cynnwys uniongrededd a gwreiddioldeb mawr. Er enghraifft, gallai ei thrafodaeth am Grist fel Mam ddeillio'n uniongyrchol o'i phrofiadau hi ei hun yn hytrach nag o weithiau awduron Lladin fel Anselm o Gaergaint a fynegodd yr un syniad. Yn ei dameg 'Yr Arglwydd a'i Was' rhydd ddehongliad ychydig yn wahanol wrth ddadansoddi'r cwymp yn Eden, sef bod Adda wedi syrthio i bechod o ganlyniad i'w sêl yn hytrach na'i anufudd-dod. Pan gyfeiria at y Crist croeshoeliedig y mae'n tynnu sylw, yn anarferol, at ddysychiad corff Crist ac yn pwysleisio'r emosiwn o lawenydd fod Crist wedi ei roi ei hun yn llwyr dros ddynoliaeth ar y groes.

Mae ansawdd uchel ei mynegiant a'i syniadaeth wedi arwain rhai i amau ei gosodiad ei bod yn 'a symple creature vnlettyred' (*Book of Shewings*, 285) gan awgrymu ei bod yn dra dysgedig. Efallai yn wir iddi fod yn lleian ond nid oes unrhyw dystiolaeth fod person o'i natur hi yn Carrow yn y cyfnod dan sylw.

Rywbryd cyn 1394 fe wnaed cymynrodd i 'Julian anakorite' (sef Julian y meudwy) ac ysgrifennodd y ddau gofnod o'i gweledigaethau. Credir fod y ffurf fer wedi ei hysgrifennu yn fuan ar ôl y digwyddiad ond nid oes sicrwydd o hynny. Mae dau gyfeiriad yn ei gwaith yn rhoi rhyw syniad inni o'r hyn ydoedd. Noda sgrifellwr o'r fersiwn byr ym 1413 fod Julian yn wraig dduwiol, yn feudwy oedd yn byw yn Norwich. Yn yr un flwyddyn ymwelodd Margery Kempe o Bishop's Lynn â hi gan ei chanmol am ei chyngor doeth. Cyfrannwyd cymynroddion eraill iddi ym 1404, 1415 a 1416 oedd yn dangos ei bod yn dal yn fyw yn 73 oed.

Byddai pob gwybodaeth amdani wedi diflannu oni bai am dair llawysgrif o'r ail ganrif ar bymtheg oedd yn cynnwys y testun hir o'i gwaith, a gopïwyd gan leianod Seisnig ym Mharis a Cambrai. Argraffwyd y testun yn Lloegr gan Serenus Cressy ym 1670. Mae calendr Eglwys Loegr yn ei choffáu yn flynyddol ar 8 Mai.